



Department
for Culture,
Media & Sport



CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND



Aelod o'r Bwrdd
Cronfa Gymunedol y
Loteri Genedlaethol
Pecyn i Ymgeiswyr

At Birkhill House, Yr Alban



Go Kids Go, Yr Alban

Cyflwyniad

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dymuno penodi tri aelod i Fwrdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Dyma gyfle anhygoel i unigolion sy'n angerddol dros alluogi cymunedau i gysylltu, meithrin perthnasoedd a gweithredu ar yr hyn sydd bwysicaf iddynt.

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithio o fewn ac ochr yn ochr â chymunedau i gyflawni ei nod i gefnogi gweithgareddau sy'n cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ei strategaeth hyd at 2030, 'Cymuned yw'r man cychwyn'.

Y Gronfa yw'r ariannwr cymunedol mwyaf yn y DU ac mae'n gyfrifol am ddsbarthu 40% o gyfanswm yr arian achosion da a godir drwy'r Loteri Genedlaethol. Gyda Swyddogion Ariannu wedi'u lleoli mewn cymunedau ledled y DU, mae'r Gronfa'n canolbwyntio lle mae'r angen mwyaf. Maen nhw'n ariannu prosiectau sy'n cyflawni pedwar nod cymunedol: cefnogi cymunedau i ddog ynghyd, helpu plant a phobl ifanc i ffynnu, galluogi pobl i fyw bywydau iachach a bod yn gynaliadwy'n amgylcheddol.



Eco Rangers, Gogledd Iwerddon



One Equine Trust, Gogledd Iwerddon

Yn ogystal â ddsbarthu arian achosion da, mae'r Gronfa yn gyfrifol am ddsbarthu arian a ryddhawyd o gyfrifon banc segur ac asedau cysylltiedig. Maent hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill, cyrff cyhoeddus yn bennaf, i reoli a ddsbarthu arian trwy raglenni grant y maent yn eu cynnal ar eu rhan.

Mae'r Gronfa'n helpu creu cymunedau cryfach a thecach ledled y DU, gan hefyd gynnig canllawiau ymarferol a mewnwelediad i droi syniadau a mentrau'n rhywbeth trawsnewidiol i gymunedau.

Neges gan y Cadeirydd

Diolch am eich diddordeb yn y rôl aelod o'r Bwrdd yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Rydym yn gweithio o fewn ac ochr yn ochr â chymunedau, gan ddefnyddio haelioni chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gefnogi gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau. Ni yw'r ffynhonnell sengl fwyaf o arian ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn y DU. Rydym yn Un Gronfa wedi'i lleoli mewn cymunedau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban, ac mae ein gwaith yn adlewyrchu amrywiaeth y DU.



Y Fonesig Julia Cleverdon, Cadeirydd



Mae aelodau ein Bwrdd yn dod â'u profiad, eu mewnwelediad a'u hangerdd i lywio sut rydym yn defnyddio arian y Loteri Genedlaethol i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Bydd aelodau newydd y Bwrdd yn ymuno â'r Gronfa ar adeg gyffrous. Mae ein strategaeth '**Cymuned yw'r man cychwyn**' yn gosod ein huchelgais i wneud mwy o wahaniaeth yn y blynyddoedd i ddod, trwy wrando ac ymateb i gymunedau, a chanolbwyntio mwy ar gefnogi'r effaith fwyaf.

Dyma gyfle anhygoel i fod yn aelod o Fwrdd corff cyhoeddus proffil uchel yn y DU sy'n rhoi cysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol wrth wraidd creu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus.



Indian Community Association, Lloegr

Cefndir

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi'i sefydlu fel corff cyhoeddus nad yw'n adrannol gan Ddeddf Seneddol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol y Gronfa, fel y nodir yn ei strategaeth, **Cymuned yw'r man cychwyn**, ac am lywodraethu'r Gronfa.

Mae'r bwrdd yn cefnogi ac yn cael ei gynghori gan y Prif Weithredwr, sydd, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod y Gronfa'n gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel o uniondeb.

Mae penderfyniadau ariannu yn cael eu dirprwyo i bum pwyllgor portffolio (y DU, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru) ac i Swyddogion Gweithredol.

Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer y Gronfa gan gynnwys ei Swyddog Cyfrifyddu, materion ariannol i Senedd y DU a gosod cyferiadau polisi, yn gorwedd â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Arian a ddyfarnwyd yn 2024-25

Ledled y DU

£86.0m

45 o grantiau

Cyfanswm

£767.1m

12,708 o grantiau

Gogledd Iwerddon

£34.9m

702 o grantiau

Yr Alban

£62.8m

1,798 o grantiau

Cymru


£43.1m

945 o grantiau

Lloegr

£540.3m

9,218 o grantiau



Rôl Aelod o'r Bwrdd

Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd:

- Gosod a hyrwyddo nodau strategol CGYLG o fewn y fframwaith polisi ac ariannol a osodwyd gan DCMS.
- Darparu arweinyddiaeth o fewn fframwaith rheolaethau effeithiol a rheoli risg.
- Sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau ariannol a dynol i gyflawni ei amcanion.
- Monitro ac adolygu perfformiad rheoli.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol a gweinyddol ar gyfer cronfeydd cyhoeddus.
- Gweithredu o fewn awdurdod dirprwyedig a chanllawiau gweinidogol.
- Arwain ar ddylunio a goruchwyllo systemau rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol.
- Darparu sicrwydd i DCMS ar risg a chynyddu pryderon sylweddol.
- Cadw'n hysbys am newidiadau sy'n effeithio ar gyfeiriad strategol neu dargedau'r Gronfa.
- Ymgysylltu â'r tîm gweithredol a DCMS i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg.
- Sicrhau bod mecanweithiau adrodd mewnol ac allanol effeithiol ar waith.
- Dangos safonau uchel o lywodraethiant corfforaethol bob amser.
- Penodi'r Prif Weithredwr, ac mewn ymgynghoriad â DCMS, goruchwyllo eu perfformiad.
- Cefnogi gwerthusiad perfformiad blynyddol y Cadeirydd, a arweinir gan DCMS.



Bangor Foodbank, Gogledd Iwerddon

Meini prawf Hanfodol

Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y rôl allu dangos eu bod yn bodloni'r mwyafrif o'r meini prawf canlynol i raddau uchel.

Meini prawf Hanfodol

- Dangos ymrwymiad cryf i nod a phwrpas Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, gan weithredu fel eiriolwr ymroddedig i'r sefydliad.
- Profiad o ddylanwadu ar newid polisi neu systemau o safbwynt cymunedol.
- Ymrwymiad a phrofiad amlwg mewn tegwch ac arferion teg.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol, gyda'r gallu i wrando, derbyn heriau a herio eraill yn adeiladol gydag eglurder a pharch.

Meini Prawf Ychwanegol

Meini Prawf Ychwanegol

Rhaid i ddarpar ymgeiswyr hefyd allu dangos un neu'n fwy o'r canlynol:

- Dealltwriaeth a phrofiad ar lefel uwch o sefydliadau cymunedol/ llawr gwlad a hanes o greu amgylchedd lle mae cymunedau'n cael eu cysylltu a'u cefnogi.
- Dealltwriaeth a phrofiad ar lefel uwch mewn cyfathrebu, adrodd straeon, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata, neu gysylltiadau â'r cyfryngau.
- Dealltwriaeth a phrofiad o arwain datblygiad neu yrru'r broses o fabwysiadu technolegau digidol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg o fewn cyd-destunau cymunedol.



Meini prawf dymunol

- Cysylltiad â phrofiad cymunedol byw neu ddwfn, yn enwedig o fewn cymunedau difreintiedig ac sydd wedi cael eu gwahaniaethu.
- Dealltwriaeth o ariannu, dyngarwch neu systemau sector cyhoeddus.

Manyleb y Person

Rydym yn ceisio penodi tri Aelod Bwrdd newydd, pob un yn dod â maes arbenigedd gwahanol a hanfodol i gefnogi ein huchelgeisiau strategol.

1 Pŵer, Asiantaeth a Rheoli Cymunedol

Rydym yn chwilio am arweinydd meddwl profiadol a chydnyddedig a all ein cefnogi i gyflawni ein huchelgeisiau ynghylch cynyddu pŵer, asiantaeth a rheolaeth o fewn cymunedau, gan sicrhau bod profiadau, blaenoriaethau a dyheadau byw cymunedau wedi'u hymgorffori yn ein strategaeth a'n penderfyniadau.

2 Brand, Enw da, a Dylanwad

Rydym yn chwilio am rywun sydd â hanes amlwg o ddylanwad neu stiwardiaeth polisi yn genedlaethol neu'n rhyngwladol a all ddarparu her a chefnogaeth yn ein strategaeth **Cymuned yw'r man cychwyn.**

3 Technolegau Digidol ac sy'n Dod i'r Amlwg

Rydym yn chwilio am arweinydd digidol a thechnoleg cenedlaethol neu ryngwladol cydnabyddedig. Bydd yr unigolyn hwn yn allweddol wrth gefnogi a herio ein nodau digidol a thechnolegol strategol, sy'n cynnwys ail-ddylunio ein gweithrediadau trwy ddefnyddio awtomeiddio ac AI i wasanaethu cymunedau yn well, gan gydbwyso lefelau bygythiad heriol, a hwyluso'r defnydd o dechnoleg newydd er budd y cyhoedd.



One Equine Trust, Gogledd Iwerddon

Ymrwymiad Amser

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, gan gynnwys cyfarfod deuddydd blynyddol gydag arhosiad dros nos. Maent yn cynnal diwrnod Bwrdd a Phwyllgor unwaith y flwyddyn. Fel sefydliad datganoledig, ledled y DU, cynhelir cyfarfodydd ledled y DU. Mae angen rhywfaint o deithio i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau ledled y DU.

Yn ogystal, gellir gwahodd aelodau'r Bwrdd hefyd i ymuno â Phwyllgor y Bwrdd.

Gall yr ymrwymiad amser fod hyd at 36 diwrnod y flwyddyn.

Taliad Cydnabyddiaeth

Y taliad cydnabyddiaeth fydd £7,848 y flwyddyn, a delir mewn taliadau misol cyfartal. Gall y taliad cydnabyddiaeth fod yn drethadwy ac nid yw'n bensiynadwy.

Bydd yr holl dreuliau rhesymol a dogfennol a dynnir yn unol â pholisi treuliau'r Gronfa yn cael eu hail-dalu.

Tymor y Penodiad

Tymor y penodiad yw pedair blynedd.

Dyddiadau Allweddol



Ar agor i geisiadau

4 Mawrth 2026



Dyddiad cau i geisiadau

1 Ebrill 2026



Y panel yn hidlo

Wythnos yn dechrau 13 Ebrill 2026



Cyfweliadau

O 5 Mai 2026



Balnaree Community Centre, Gogledd Iwerddon

Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae DCMS wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal yn ei benodiadau cyhoeddus. Rydym yn annog ymgeiswyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, y rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain a'r De-ddwyrain ac ymgeiswyr sydd wedi cyflawni llwyddiant trwy lwybrau addysgol anhraddodiadol. Mae hyn yn sicrhau bod byrddau cyrff cyhoeddus yn elwa o ystod lawn o safbwyntiau amrywiol ac yn gynrychioliadol o'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd i bawb ar draws y sefydliad, gan helpu sicrhau bod y sefydliad yn un lle gellir mynegi ystod wirioneddol amrywiol o safbwyntiau, heb ofn na ffafr.



Nupur Arts, Lloegr

Gofynnwn i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen monitro amrywiaeth. Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n ein helpu trwy ddarparu'r wybodaeth hon.



Babi Actif, Cymru



Music in Hospitals and Care, Lloegr

Rydym yn ceisio gwarantu cyfweiliad i unrhyw un ag anabledd y mae eu cais yn bodloni'r meini prawf lleiaf ar gyfer y rôl. Trwy 'meini prawf lleiaf', rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth yn eich cais, sy'n dangos eich bod yn bodloni'r lefel o gymhwysedd sy'n ofynnol o dan bob un o'r meini prawf hanfodol. Os hoffech wneud cais o dan y cynllun hwn, nodwch hyn yn yr e-bost neu lythyr eglurhaol wrth gyflwyno eich cais neu cysylltwch â'r tîm. Ni fydd hyn yn amharu ar eich cais mewn unrhyw ffordd.

Addasiadau rhesymol

Os hoffech gael trafodaeth gyfrinachol ynghylch unrhyw addasiadau rhesymol yn ystod y broses, nodwch hyn yn yr e-bost neu'r llythyr eglurhaol neu cyfathrebwch â'r tîm penodiadau cyhoeddus, a fydd yn hapus i drafod hyn gyda chi.





Go Kids Go, Yr Alban

Gwneud cais ar-lein

<https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles>

1

Cyflwyno CV

Ar ddim mwy na dwy ochr o bapur A4.

2

Datganiad o addasrwydd

Disgrifwch sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl hon.

3

Gwybodaeth am

gydraddoldeb a gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fuddiannau allanol neu faterion enw da.

Telerau ac Amodau

Mae'r broses benodi hon yn cadw at God Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus, sy'n cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Meini Prawf Cymhwysedd

Ni allwch gael eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus os:

- rydych chi'n fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwr
- yw eich ystâd wedi'i atafaelu yn yr Alban neu rydych yn ymrwymo i raglen trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefniant Dyled ac Ymlyniad (Yr Alban) 2002 (asp 17) fel y dyledwr neu, o dan gyfraith yr Alban, wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer credydwr



Babi Actif, Cymru



Seed to Feed, Lloegr

- rydych wedi'ch gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni o dan Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986
- eich bod wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd, ac nid yw'r euogfarn yn cael ei wario at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (c. 53)
- rydych chi'n dod yn destun gorchymyn rhyddhad dyled neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad
- rydych chi'n methu â datgan unrhyw wrthdaro buddiannau.



Befrienders, Yr Alban

Telerau ac Amodau

Gwrthdaro Buddiannau a Diwydrwydd Dyladwy

Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig pe baech yn cael eich penodi, rhowch fanylion yn eich cais. Os oes gennych ymholiadau am hyn ac os hoffech drafod ymhellach, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

O ystyried natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rhai a benodir fel aelodau o gyrrff cyhoeddus yn cadw hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe baech wedi'ch penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu achosi perygl i hyder y cyhoedd yn y penodiad,

mae'n bwysig eich bod yn dod â nhw at sylw'r Panel Asesu Ymgynghorol a darparu manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych yn dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd fyfyrion ar unrhyw ddatganiadau cyhoeddus rydych chi wedi'u gwneud, gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy, byddwn yn ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'ch ymddygiad neu eich gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a chyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Efallai y bydd y wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Ymgynghorol ac efallai yr hoffent archwilio materion gyda chi pe cewch eich gwahodd i gyfweiliad. Gellir rhannu'r wybodaeth hefyd gyda gweinidogion a Swyddfa'r Cabinet.

Cysylltu â ni

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
yr Adran dros Ddiwylliant,
y Cyfryngau a Chwaraeon
publicappointments@dcms.gov.uk

Rheolwr Ymgyrchoedd yr
Adran dros Ddiwylliant, y
Cyfryngau a Chwaraeon:

Emily Nixon
emily.nixon@dcms.gov.uk

Cyswilt Cronfa Gymunedol y
Loteri Genedlaethol:

Madeline Colin
madeline.colin@tnlcommunityfund.org.uk

